# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 11 Ionawr 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(37)(v2)

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 3. Dadl i geisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ynghylch Parhad o Ofal i Fywyd fel Oedolyn (Ken Skates) (60 munud)

**NDM4885 Ken Skates (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.91:

Yn cytuno y caiff Ken Skates gyflwyno Bil a fydd yn rhoi ar waith y wybodaeth cyn y balot a gyflwynwyd ar 14 Hydref 2011 o dan Reol Sefydlog 26.90.

Gellir gweld y wybodaeth cyn y balot drwy ddilyn y linc canlynol:

http://www.cynulliadcymru.org/cy/bus-home/bus-legislation/bill_ballots/bill_020.htm

### 4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

**NDM4886 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn nodi â phryder sylwadau Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr, wrth ymateb i Raglen Adnewyddu'r Economi 2010, fod gan Gymru gymysgedd wael o sgiliau.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cydnabod pwysigrwydd darpariaeth sgiliau sy'n cael ei harwain gan y galw, yn unol ag argymhellion Adolygiad Leitch; a

b) cynnal asesiad llawn o'r angen am sgiliau arbenigol yng Nghymru yn y dyfodol.

Gellir gweld Rhaglen Adnewyddu'r Economi 2010 "Adnewyddu'r Economi – Cyfeiriad Newydd" yma:

http://cymru.gov.uk/docs/det/report/100705anewdirectioncy.pdf

Gellir gweld ymateb Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr i Raglen Adnewyddu'r Economi 2010 yma:

http://wales.gov.uk/docs/det/consultation/101216consreponse.pdf (Saesneg yn unig)

Gellir gweld Adolygiad Leitch yma:

http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+/http:/www.hm-treasury.gov.uk/independent_reviews/leitch_review/review_leitch_index.cfm (Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu "â phryder" o bwynt 1.

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ar ddiwedd pwynt 1 mewnosod "ac felly'n cydnabod pwysigrwydd y ffaith bod Sgiliau Twf Cymru ar fin ailagor a'r Adolygiad o Gymwysterau sy'n parhau fel rhan o'r ymrwymiad sylweddol i sgiliau a amlinellir yn y Rhaglen Lywodraethu".

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r £4.88 miliwn ychwanegol ar gyfer y Rhaglen Recriwtiaid Newydd a'r £3 miliwn ychwanegol ar gyfer Sgiliau Twf Cymru a gyhoeddwyd yn y gyllideb derfynol ym mis Rhagfyr 2011.

**5. Dadl Plaid Cymru (60 munud)**

**NDM4887 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno system fandio ar gyfer ysgolion uwchradd a chynradd yng Nghymru;

2. Yn credu nad yw bandio'n rhoi darlun cyflawn o berfformiad ysgol a dylid cyfyngu ei ddefnydd i sicrhau bod unrhyw ysgol yn cael y cymorth angenrheidiol sydd ei angen arni i wella'r meysydd hynny a gaiff eu mesur gan y system fandio;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno proses werthuso adeiladol sy'n arwain at gymorth wedi'i dargedu i ddatrys perfformiad gwael mewn ysgolion.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fonitro dealltwriaeth rhieni, athrawon a Llywodraethwyr o'r system fandio ac ystyried y pryderon a fynegwyd gan staff addysgu a chymryd camau eraill i egluro os bydd angen.

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y camau y mae Awdurdodau Lleol wedi'u cymryd, drwy gonsortia, i ad-drefnu'r gwasanaethau gwella ysgolion ac yn credu y dylai cefnogaeth sy'n manteisio ar arbenigedd yr ymarferwyr blaenllaw ddod yn fodel ledled Cymru.

**Gwelliant 3 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu mai safon yr addysgu ac arweinyddiaeth ysgolion yw'r ffactorau allweddol ar gyfer gwella ysgolion ac yn talu teyrnged i waith y proffesiwn addysgu yng Nghymru am sicrhau bod safonau wedi codi dros y degawd diwethaf.

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y bydd y system fandio hon, drwy ganolbwyntio ar berfformiad cyffredinol ysgolion, yn methu cydnabod perfformiadau unigol disgyblion ac adrannau yn yr ysgolion hynny.

**Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn bryderus nad yw Llywodraeth Cymru wedi llunio canllawiau penodol ar gyfer sut gall awdurdodau lleol a chanddynt nifer o ysgolion ym Mandiau 3, 4 a 5 wneud gwelliannau ymarferol.

**Cyfnod Pleidleisio**

**6. Dadl Fer (30 munud)**

**NDM4884 Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):**

Chwythu'r Chwiban: A oes cyfrifoldeb moesol ar Lywodraeth Cymru i geisio gwarchod y rheini sy'n chwythu'r chwiban ym mhob agwedd ar fywyd?

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 Dydd Mawrth, 17 Ionawr 2012